# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Mai 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15109

## 281

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 a 3-8. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 9. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 3.

## 2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd cwestiynau 1 a 3-9. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 3.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.12

**Atebwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am yr effaith y bydd yr oedi i gam 2 gwaith atgyweirio Pont Menai yn ei chael ar Ynys Môn?

**Atebwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

Rhys ab Owen (Canol De Cymru): Pa fesurau sy'n cael eu trafod rhwng Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru i wella diogelwch yr amgylchedd tra'n sicrhau bod biliau dŵr yn darparu gwir werth am arian i ddefnyddwyr?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.46

Gwnaeth **Carolyn Thomas** ddatganiad ar am - Diwrnod Rhyngwladol Bioamrywiaeth (22 Mai).

Gwnaeth **John Griffiths** ddatganiad am - Wythnos Gweithredu dros Anafiadau i'r Ymennydd (19-25 Mai)

Gwnaeth **Rhys ab Owen** ddatganiad am - Nodi marwolaeth Michael Jones a'i gyfraniad i Addysg (16 Mai).

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned

Dechreuodd yr eitem am 15.52

**NDM8903** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2025.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2025.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2024

Dechreuodd yr eitem am 16.29

**NDM8904** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: 'Cysylltiadau Rhyngwladol Adroddiad Blynyddol 2024' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2025.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2025.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Cymru - Pensiynau

Dechreuodd yr eitem am 17.12

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8906** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r anghyfiawnderau pensiwn sylweddol a hirsefydlog o ganlyniad i ddiffyg gweithredu gan Lywodraethau olynol y DU.

2. Yn cydnabod gwaith grwpiau ymgyrchu megis menywod y 1950au, cyn-weithwyr Allied Steel and Wire a chyn-aelodau cynllun pensiwn staff Glo Prydain.

3. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Lafur y DU i:

a) gweithredu ar ymrwymiad blaenorol gan y blaid Lafur i unioni'r cam a wnaed i fenywod a anwyd yn y 1950au yng Nghymru ac y mae newidiadau i bensiwn y wladwriaeth wedi effeithio arnynt;

b) uwchraddio pensiynau cyn-weithwyr Allied Steel and Wire yn ôl chwyddiant; ac

c) trin aelodau cynllun pensiwn staff Glo Prydain a chynllun pensiwn y glowyr yn gyfartal.

4. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Lafur Cymru i gyflwyno'r achos dros weithredu ar y materion hyn er gwaethaf ei phartneriaeth mewn pŵer, ac yn galw arni i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU i:

a) gweithredu argymhellion Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd i fenywod y 1950au;
b) uwchraddio pensiynau cyn-weithwyr Allied Steel and Wire yn unol â chwyddiant; ac

c) estyn Cynllun Pensiwn y Glowyr i gynnwys aelodau Cynllun Pensiwn Staff Glo Prydain.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 12 | 24 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu'r diwygiadau diweddar a wnaed gan Lywodraeth y DU i Gynllun Pensiwn y Glowyr, gan gynnwys gweld y gronfa fuddsoddi wrth gefn yn dychwelyd a'r cynnydd o ganlyniad i daliadau pensiwn cyn-lowyr.

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon yn gyson am anghyfiawnderau pensiwn gyda Llywodraethau olynol y DU, a’i bod yn parhau i eirioli ar ran:

a) pensiynwyr Allied Steel and Wire;

b) menywod a anwyd yn y 1950au y mae newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth wedi effeithio arnynt; ac

c) aelodau o gynllun pensiwn staff Glo Prydain.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 23 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y’i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r anghyfiawnderau pensiwn sylweddol a hirsefydlog o ganlyniad i ddiffyg gweithredu gan Lywodraethau olynol y DU.

2. Yn cydnabod gwaith grwpiau ymgyrchu megis menywod y 1950au, cyn-weithwyr Allied Steel and Wire a chyn-aelodau cynllun pensiwn staff Glo Prydain.

3. Yn croesawu'r diwygiadau diweddar a wnaed gan Lywodraeth y DU i Gynllun Pensiwn y Glowyr, gan gynnwys gweld y gronfa fuddsoddi wrth gefn yn dychwelyd a'r cynnydd o ganlyniad i daliadau pensiwn cyn-lowyr.

4. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon yn gyson am anghyfiawnderau pensiwn gyda Llywodraethau olynol y DU, a’i bod yn parhau i eirioli ar ran:

a) pensiynwyr Allied Steel and Wire;

b) menywod a anwyd yn y 1950au y mae newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth wedi effeithio arnynt; ac

c) aelodau o gynllun pensiwn staff Glo Prydain.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 23 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y’i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.00

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.03

**NDM8905** [Mick Antoniw (Pontypridd)]

Cymru ac Ewrop: chwalu'r rhwystrau

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Mehefin 2025**